# Methiant i Gyflwyno Cyfrifon Blynyddol i'w Harchwilio a Phryderon Llywodraethu Ehangach – Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Blynyddoedd archwilio: 2016-17 i 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 1973A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod. Prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

# Cynnwys

Gan weithredu dan drefniadau dirprwyedig ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i dynnu sylw'r cyhoedd at y rhwystr i'm harchwiliad a'r cynnydd sylweddol o ganlyniad mewn ffioedd archwilio, gan y Clerc a'r Cyngor a diffygion mewn trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Llanpumsaint.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi nifer o ddiffygion yn nhrefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol y Cyngor ac yn gwneud chwe argymhelliad i fynd i'r afael â'r methiannau hynny.

Rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad a'r argymhellion a wneir, yn unol ag adran 25 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion a'r camau nesaf 6

Adroddiad manwl

Am ddwy flynedd, nid yw'r Cyngor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau statudol i baratoi datganiadau cyfrifon a'u cyflwyno i'w harchwilio ar amser 8

Mae Clerc y Cyngor wedi gwrthod cyflawni cyfrifoldebau arwyddocaol ac wedi creu rhwystr i'r broses archwilio 12

Mae'r Cyngor yn methu â bodloni'r safonau sylfaenol llywodraethu a thryloywder sy'n ofynnol gan gynghorau cymuned 14

Mae cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2017-18 a 2018-19 wedi'u camddatgan ac nid yw ei Ddatganiadau Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu'r trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol sydd yn eu lle yn y Cyngor ac, o ganlyniad, rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio amodol 16

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghasgliadau sy'n deillio o'm harchwiliad o gyfrifon Cyngor Cymuned Llanpumsaint (y Cyngor) ar gyfer blynyddoedd ariannol 2017-18, 2018-19 a 2019-20.

2 Dan adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004), rhaid i mi ystyried a ddylwn, er budd y cyhoedd, gyhoeddi adroddiad ar unrhyw fater sy'n dod i'm sylw yn ystod fy archwiliad er mwyn iddo gael ei ystyried gan Gyngor Cymuned Llanpumsaint (y Cyngor) neu gael ei ddwyn i sylw'r cyhoedd. Wrth ystyried a ddylwn gyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd neu gyhoeddi argymhellion statudol, rwy'n ystyried graddfa ac effaith y materion yr wyf wedi'u canfod a'r camau gweithredu y mae'r Cyngor wedi'u cymryd ar ôl hynny.

3 Mae'r adroddiad hwn yn adroddiad ar unwaith a gyhoeddir er budd y cyhoedd dan Adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at y modd y gwnaeth y Clerc a'r Cyngor greu rhwystr i'r broses archwilio ac at ddiffygion mewn rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yn y Cyngor. O ystyried natur y materion a ganfuwyd gennyf a'r costau ychwanegol sylweddol a ysgwyddwyd oherwydd ymddygiad y Clerc a'r Cyngor, rwy'n credu ei bod yn bwysig bod y cyhoedd yn cael ymwybyddiaeth lawn ac iawn o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor ac o'r effaith ganlyniadol ar fy ffioedd archwilio.

4 Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar faterion yn y Cyngor, mae gwersi i'w dysgu nid dim ond gan y Cyngor hwn, ond gan yr holl gynghorau cymuned yng Nghymru.

## Cyngor Cymuned Llanpumsaint

5 Mae'r Cyngor yn gwasanaethu cymuned fach Llanpumsaint yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n gwario tuag £8,000 y flwyddyn, a ariennir yn bennaf â phraesept gan Gyngor Sir Gaerfyrddin. Mae'r Cyngor Sir yn casglu'r praesept trwy dreth gyngor ychwanegol a godir ar drigolion y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cael ei gyllid o bwrs y wlad a chaiff ei aelodau eu hethol gan drigolion lleol. Mae'r Cyngor, felly, yn atebol i'r etholaeth leol.

6 Mae cynghorau cymuned, fel Llanpumsaint, yn dibynnu fel arfer ar un swyddog allweddol, y Clerc, i reoli eu materion gweinyddol. Yn amlach na pheidio, penodir y Clerc fel Swyddog Cyllid Cyfrifol hefyd. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor o ddydd i ddydd. Yn arbennig, mae hyn yn cynnwys cael a chofnodi incwm, paratoi taliadau â siec i'w llofnodi gan aelodau, cynnal y cofnodion cyfrifyddu a pharatoi'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol.

7 Mr Phil Jones yw Clerc y Cyngor ar hyn o bryd. Am weddill yr adroddiad hwn, cyfeirir ato fel y Clerc. Mae Mr Jones wedi datgan ei fod wedi bod yn gweithredu fel

Clerc y Cyngor am oddeutu wyth mlynedd. Mr Jones yw Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor hefyd.

8 Er bod rôl y Clerc yn bodoli, mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014) yn ei gwneud yn glir bod y cyfrifoldeb am warchod arian y Cyngor, gan gynnwys sicrhau bod ganddo reolaeth ariannol effeithiol ac effeithlon, yn gorwedd gyda'r Cyngor (hynny yw, aelodau'r Cyngor). Mae hyn yn cynnwys pethau megis sefydlu system briodol o reolaeth fewnol, gan gynnwys archwilio mewnol, a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol i gael eu harchwilio.

## Fy ngwaith archwilio

9 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau tref a chymuned yn canolbwyntio ar ffurflen flynyddol a gwblheir gan y cynghorau ac a gyflwynir i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan. Mae'r ffurflen flynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r cyngor eu paratoi, a datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut y mae'r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.

10 Mae'r Cyngor yn paratoi ei gyfrifon ar sail derbyniadau a thaliadau. Mae hyn yn golygu bod trafodion yn cael eu cofnodi pan wneir taliadau neu pan ddaw arian i law. Caiff trafodion unigol eu dosbarthu i un o ddau is-gategori, sef derbyniadau neu daliadau. Caiff derbyniadau eu cofnodi naill ai fel derbyniad rhandaliad praesept neu fel derbyniad 'arall'. Caiff taliadau eu cofnodi fel costau staff (cyflogau a.y.b.) neu fel taliad 'arall'. Ar ddiwedd y flwyddyn, caiff y categorïau hyn eu hadio a'u cofnodi yn y cyfrifon diwedd blwyddyn.

11 Fe wnaeth oedi cyn cael y ffurflenni blynyddol ar gyfer 2016-17 a 2017-18 beri i'r archwilwyr a oedd yn gweithio ar fy rhan atgyfeirio'r Cyngor ataf fi. Fe berodd hyn i mi neilltuo'r archwiliadau o'r cyfrifon hyn i aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn eu cwblhau'n foddhaol.

# Canfyddiadau allweddol

12 Mae fy archwiliad statudol wedi canfod bod y Cyngor wedi methu â chwrdd â'i gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'i sefyllfa ariannol. Mae'r diffyg cydymffurfio hwn yn cynnwys gwrthodiad y Clerc i gyflawni cyfrifoldebau ei rôl ar sail anrhifogrwydd.

13 Rhwng mis Ebrill 2018 a diwedd 2020, fe grëodd y Clerc rwystr i'r archwiliad trwy fethu â darparu dogfennau ac eglurhad angenrheidiol, ac yntau'n darparu sylwebaeth wrthwynebus helaeth ond amherthnasol ar ofynion archwilio. O ganlyniad, mae cost yr archwiliad wedi cynyddu'n sylweddol. Yn y pen draw, talwyr y dreth gyngor yn Llanpumsaint fydd yn ysgwyddo baich y costau ychwanegol trwy braesept uwch neu leihad yn y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

14 Er mai'r Clerc sy'n bennaf gyfrifol am greu rhwystr i'r archwiliad, am yr oedi dilynol wrth ei gynnal a'i gostau cynyddol, ymddengys i mi fod y Cyngor ei hun wedi methu

â gweithredu'n briodol i sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol. Yn wir, ymddengys fod y Cyngor yn ei gyfanrwydd wedi cefnogi gweithredoedd y Clerc. Ar y sail honno, rhaid i'r aelodau dderbyn cyfrifoldeb am y methiannau a ganfuwyd a'r costau ychwanegol a ysgwyddwyd.

15 Mae methiant y Clerc a'r Cyngor i gyflwyno'r datganiadau cyfrifyddu ar amser i'w harchwilio, eu methiant i ddarparu cofnodion ategol a gwybodaeth angenrheidiol bellach, a'u methiant i gyhoeddi eitemau sy'n ofynnol yn ôl statud ar ei wefan yn dangos diffyg tryloywder a dealltwriaeth am atebolrwydd gan y Cyngor.

16 Roedd y cofnodion cyfrifyddu a ddarparwyd yn y pen draw gan y Clerc yn anghyflawn. Canfu fy archwiliad hefyd fod cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2017-18 a 2018-19 wedi'u camddatgan. Rwyf hefyd yn dod i'r casgliad nad yw'r haeriadau y mae'r Cyngor yn eu gwneud yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhoi cynrychiolaeth gywir o'r trefniadau a oedd yn eu lle yn 2017-18 a 2018-19. Felly rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio amodol ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyn.

17 Caiff y canfyddiadau hyn eu nodi'n fanwl isod.

# Argymhellion a'r camau nesaf

18 Tynnaf sylw'r Cyngor at yr argymhellion canlynol i fynd i'r afael â'r diffygion a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad:

**Arddangosyn 1: argymhellion**

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani at ddibenion yr archwiliad statudol blynyddol yn cael ei darparu'n brydlon bob blwyddyn. |
| A2 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn penodi swyddog cyllid cyfrifol â sgiliau priodol i gyflawni'r rôl. |
| A3 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod y Clerc ac aelodau unigol y mae'n ofynnol iddynt fod yn bresennol mewn cyfarfodydd i drafod yr archwiliad yn gwneud hynny ar gais yr archwilydd. |
| A4 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cyhoeddi'r holl ddogfennau y mae'n ofynnol yn gyfreithiol iddo'u darparu. |

| Argymhellion | |
| --- | --- |
| A5 | Cyn cymeradwyo'i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol dylai'r Cyngor argyhoeddi ei hun bod ganddo dystiolaeth ddigonol a phriodol i ategu'r haeriadau a wneir yn y datganiad. |
| A6 | Cyn ei fod yn pennu ei braesept bob blwyddyn, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod wedi cyfrifo'i ofyniad o ran y gyllideb yn briodol a hynny'n unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. |

## Camau nesaf

19 Mae adrannau 25 i 27 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r camau y mae angen i'r Cyngor eu cymryd yn awr mewn ymateb i'r adroddiad hwn.

20 I grynhoi, yn awr rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad a'i argymhellion yn un o gyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor o fewn un mis i'r dyddiad y byddaf yn cyhoeddi'r adroddiad.

21 Cyn y cyfarfod, rhaid i'r Cyngor osod hysbysiad sy'n hysbysebu'r cyfarfod mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal. Rhaid i'r hysbysiad hwn nodi dyddiad ac amser y cyfarfod a sut y gall aelodau'r cyhoedd fod yn bresennol.

22 Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;
- a yw'r argymhellion yn yr adroddiad yn mynd i gael eu derbyn; a
- pha gamau gweithredu (os o gwbl) i'w cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

23 Wedyn bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb mewn papur newydd lleol.

Ann-Marie Harkin

Cyfarwyddwr Gweithredol – Gwasanaethau Archwilio

Archwilio Cymru

Tros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Adroddiad manwl

## Am ddwy flynedd, nid yw'r Cyngor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau statudol i baratoi datganiadau cyfrifon a'u cyflwyno i'w harchwilio ar amser

### Mae cyfrifoldeb y Cyngor i baratoi cyfrifon blynyddol a'u cyflwyno i'w harchwilio wedi'i nodi mewn cyfraith

24 Dan Adran 13 Deddf Archwilio (Cymru) 2004, rhaid i'r Cyngor:

- baratoi ei gyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth neu ba bynnag ddyddiad arall y gall Gweinidogion Cymru ei gyfarwyddo'n gyffredinol neu mewn unrhyw achos arbennig; a
- sicrhau bod ei gyfrifon yn cael eu harchwilio yn unol â'r Ddeddf gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

25 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi ei gyfrifon yn unol ag arferion priodol. Caiff arferion priodol eu nodi yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cyngor Clercod Cynghorau Lleol **Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer cynghorau lleol yng Nghymru: Canllaw ar gyfer ymarferwyr** (y Canllaw ar gyfer Ymarferwyr).

26 Mae Rheoliad 15 o Reoliadau 2014 yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol. Rhaid i Swyddog Cyllid Cyfrifol y cyngor baratoi'r cyfrifon ac ardystio (trwy lofnodi a rhoi'r dyddiad) bod y cyfrifon yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r cyngor yn briodol. Wedyn rhaid i'r Cyngor, mewn cyfarfod llawn, ystyried a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu i'w cyflwyno i'r archwilydd erbyn 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol. Rhaid i'r archwilydd gwblhau'r archwiliad erbyn 30 Medi.

27 Rhaid i'r Cyngor hefyd gyhoeddi ei gyfrifon ynghyd ag unrhyw dystysgrif, barn neu adroddiad archwilio erbyn 30 Medi. Os caiff y rhain eu cyhoeddi cyn cwblhau'r archwiliad a bod dim barn o'r fath wedi cael ei rhoi, dylai gynnwys datganiad ac eglurhad bod yr archwilydd, ar ddyddiad eu cyhoeddi, heb roi barn.

### Nid yw'r math o gyfrifon y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu paratoi yn gymhleth

28 Mae'r Canllaw ar gyfer Ymarferwyr yn nodi'r arferion cyfrifyddu priodol y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu dilyn. Nid yw'r gofynion hyn yn gymhleth ac maent yn berthnasol i bob cyngor cymuned llai ledled Cymru.

29 Fel Cyngor bach, ar sail derbyniadau a thaliadau y mae'n ofynnol i Lanpumsaint baratoi ei gyfrifon. Dylai trafodion gael eu cofnodi wrth i arian ddod i law neu wrth i daliadau gael eu gwneud. Nid yw'n ofynnol gwneud unrhyw addasiadau i adlewyrchu amseriad trafodion, megis lle caiff anfonebau am wasanaethau a

gafwyd yn y flwyddyn gyfrifyddu eu talu ar ôl diwedd y flwyddyn. Dosberthir derbyniadau fel derbyniad praesept neu fel derbyniad ‘arall’. Dosberthir taliadau fel costau staff (cyflogau a.y.b.) neu daliadau ‘eraill’.

30 Er mwyn paratoi’r cyfrifon blynyddol, rhoddir swm y trafodion ym mhob dosbarth ar ddatganiad cyfrifyddu profforma ar ffurflen flynyddol a ddarperir ar gyfer y Cyngor. Wedyn cyfrifir y balans cau yn unol â’r cyfarwyddiadau ar y ffurflen flynyddol gan ddefnyddio rhifyddeg sylfaenol.

## Er gwaethaf negeseuon atgoffa gan fy nhîm archwilio a chanllawiau clir, ni wnaeth y Clerc baratoi cyfrifon ar gyfer 2017-18 a 2018-19 tan fis Ionawr 2020

31 Fe wnaeth y tîm archwilio yn Grant Thornton atgyfeirio’r Cyngor ataf fi ym mis Medi 2019, oherwydd methiant y Clerc i baratoi’r cyfrifon blynyddol ar gyfer 2017-18 a 2018-19. Nid wyf wedi cael y cyfrifon ar gyfer 2019-20 eto.

32 Fe ysgrifennodd fy nhîm archwilio at y Clerc ym mis Medi 2019 yn ei hysbysu ynghylch ei gyfrifoldebau ef a’r Cyngor. O ystyried gwrthodiad y Clerc i gydweithredu yn dilyn cael y llythyr hwnnw, fe baratois ddogfen i’m cynorthwyo i ystyried a ddylwn gyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd ai peidio. Anfonwyd y ddogfen hon (a adwaenir fel ‘Dogfen Ystyriaeth’) at y Clerc a’r Cadeirydd (y Cynghorydd Arwel Nicholas) ar 31 Hydref 2019, a gofynnais iddynt gyflwyno sylwadau ar gywirdeb ffeithiol y ddogfen a’r casgliadau y deuthum iddynt erbyn 5 Rhagfyr 2019. Gofynnais am ymatebion gan y Clerc a chan y Cyngor.

33 Ar 2 Rhagfyr, cysylltodd fy nhîm archwilio â’r Cadeirydd i holi am y cynnydd o ran darparu barn ynglŷn â’r Ddogfen Ystyriaeth. Er y bu cyfarfod Cyngor ar 6 Tachwedd 2019, cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd ef na’r Clerc wedi cyflwyno’r Ddogfen Ystyriaeth i’r Cyngor. Wedyn galwodd y Cadeirydd gyfarfod eithriadol ar 4 Rhagfyr 2019. Yn ôl cofnodion y cyfarfod a ddarparwyd gan y Cadeirydd, yr aelodau a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ar 4 Rhagfyr oedd y cynghorwyr Arwel Nicholas, Pamela Jones, Dylan Jones, Eirion Evans, Elfed Davies, Danny Davies a Derick Lock. Darparwyd ymddiheuriadau gan Gethin Edwards.

34 Cafodd y mater a oedd yn ymwneud â methiant y Clerc i baratoi cyfrifon ei drafod yn ystod y cyfarfod hwn. Rwy’n gwneud sylwadau pellach am drafodion y cyfarfod hwn ym **mharagraffau 46 i 48** isod.

35 Wedi hynny, darparodd Mr Jones y cyfrifon i’w harchwilio ar ôl cyfarfod y Cyngor ar 8 Ionawr 2020. Fodd bynnag, mae wedi parhau i wrthod darparu’r wybodaeth arall sy’n ofynnol i gynnal yr archwiliad, gan ddarparu dim ond dogfennaeth gyfyngedig yn y diwedd.

## Ymddengys nad yw'r Clerc wedi rhoi cyngor priodol i'r Cyngor ar gyfrifon ac archwilio, ac mae cofnodion y Cyngor naill ai heb ryw lawer o sôn am drafod y materion hyn neu nid ydynt wedi bod ar gael i'w harchwilio

36 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 4 Ebrill 2018 yn nodi:

'Clerc yn gofyn barn y Cynghorwyr ynglyn a pharhau gyda'r Audit Blynyddol wrth ystyried mor fach yw'r symiau ariannol. Clerc I ateb llythyr SAC a holi am beidio a dychwelyd yr Audit Blynyddol.'

37 Ar 15 Ebrill 2018, ysgrifennodd y Clerc at Deryck Evans yn Swyddfa Archwilio Cymru gan nodi:

'It is likely that we won't send the Audit Return in future due to the unfairness of the administrative burdens on us, and Llanpumsaint Councillors would prefer to contribute the moneys [sic] saved from the cost of the Annual Return towards a charity or an organisation providing welfare or doing good locally.'

38 Ar 18 Ebrill 2018, ysgrifennodd Deryck Evans at y Clerc yn ei hysbysu ynghylch cyfrifoldeb cyfreithiol y Cyngor am baratoi cyfrifon blynyddol.

39 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 1 Mai 2018 yn nodi:

'Swyddfa Archwilio Cymru – Clerc wedi derbyn ateb I'w lythyr heddi ond heb gael amser I'w ddarllen. Cytunwyd trafod yr ateb yn y cyfarfod nesaf.'

40 Mae cofnodion cyfarfod 4 Mehefin 2018 yn nodi:

'Swyddfa Archwilio Cymru – Clerc yn adrodd crynodeb o'r llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Deryck Evans o'r SAC.'

41 Nid yw cofnodion y Cyngor yn 2018 yn sôn am unrhyw drafodaeth na phenderfyniad pellach mewn perthynas â'r archwiliad. Gallai hyn ddynodi nad yw'r Cyngor yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau neu nad yw'n deall ei gyfrifoldebau am roi cyfrif am arian cyhoeddus.

42 Er ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei gofnodion ar ei wefan, nid yw'r cofnodion ar gyfer 2019 a 2020 ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r Clerc wedi gwrthod darparu copïau o'r cofnodion i gael eu hadolygu. Felly, ni fu'n bosibl cadarnhau a oedd y Cyngor wedi ystyried ei sefyllfa trwy 2019 a 2020.

## Nid yw aelodau'r Cyngor wedi sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu paratoi a'u cyflwyno yn unol â'r fframwaith statudol nac wedi sicrhau cydweithrediad y Clerc

43 Mae methiant y Clerc i baratoi'r cyfrifon blynyddol yn fater arwyddocaol am ei fod yn torri dyletswyddau statudol y Cyngor. Y Cyngor ei hun sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn gweithredu'n gyfreithlon. Mae'r Clerc yn un o gyflogeion y Cyngor. Fel ei gyflogwr, dylai'r Cyngor sicrhau bod y Clerc yn cyflawni'r dyletswyddau y caiff ei gyflogi i'w cyflawni.

44 Mae’r Clerc yn honni ei fod wedi gweithredu gyda gwybodaeth a chydsyniad llawn y Cyngor ac yn wir cyfeiriodd at gyfarfod y Cyngor ym mis Ebrill 2018 i ategu ei wrthodiad i ddarparu’r cyfrifon.

45 Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod unrhyw gynghorydd wedi gwirio na herio pa un a ddylai’r Cyngor gyflwyno cyfrifon i gael eu harchwilio. Ar ben hynny, nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod unrhyw gyfrifon ar unrhyw ffurf wedi cael eu paratoi yn ystod 2018 a 2019.

46 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2019 yn cofnodi bod aelodau'r Cyngor yn unfrydol o gefnogi'r Clerc.

47 Yn fy marn i, trwy beidio â sicrhau bod y Clerc yn paratoi cyfrifon a thrwy fethu â chymedroli ei ymddygiad, mae’r cynghorwyr yn unigol ac ar y cyd wedi peidio â chyflawni eu dyletswyddau ac, yn hyn o beth, maent wedi methu â gwasanaethu cymuned Llanpumsaint.

## Mae’r Cadeirydd yntau wedi peidio â chydweithredu am nad yw wedi darparu gwybodaeth angenrheidiol

48 O ystyried gwrthodiad y Clerc i ddarparu gwybodaeth, ym mis Rhagfyr 2019, fe hysbysais y Cadeirydd, y Cynghorydd Nicholas, ei bod yn ofynnol iddo yntau fod yn bresennol mewn cyfarfod i drafod yr archwiliad. Roedd (ac mae) cwestiynau penodol y mae angen i mi eu gofyn iddo er mwyn cael eglurhad o drefniadau’r Cyngor.

49 Mewn neges e-bost dyddiedig 20 Rhagfyr 2019, nododd y Cadeirydd:

‘I note the dates in January you have proposed for a meeting in relation to the audits. I respectfully give notice and apologise that I will not be able to attend on your proposed dates.

‘I draw your attention to the fact that all financial matters in relation to the audits are dealt with by our Clerk, Mr Philip Jones. I am not in a position to provide any additional information regarding the audits. However, I have emphasised to our Clerk that he needs to complete these audits as a matter of urgency and he has assured me that this is being done without delay. My understanding is that the first audit shall be submitted to you shortly and quickly followed by the second. This should make clear and clarifies my position on the matter.’

50 Ar wahân i’r angen i sicrhau bod gwybodaeth angenrheidiol yn cael ei darparu, mae’n bwysig bod aelodau o gyngor yn bresennol mewn cyfarfod i drafod yr archwiliad os gofynnir iddynt wneud hynny dan adran 52 o Ddeddf 2004. Mae gwrthod cydymffurfio â’r gofynion cyfreithiol yn gosod esiampl wael i eraill, megis y Clerc.

51 Mae methiant y Cyngor i fynd i’r afael yn briodol ag ymddygiad y Clerc gan gynnwys ei wrthodiad i gydweithredu’n golygu bod rhaid iddynt ysgwyddo cyfrifoldeb am y methiannau a ganfuwyd a chost uwch yr archwiliad.

# Mae'r Clerc wedi gwrthod cyflawni cyfrifoldebau arwyddocaol ac wedi creu rhwystr i'r broses archwilio

## Dro ar ôl tro mae'r Clerc wedi gwrthod cyflawni cyfrifoldebau ei rôl gan hawlio nad yw'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol ar gyfer y rôl

52 Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn glir mai'r Clerc sy'n gyfrifol am gyflwyno'r cyfrifon blynyddol i'r Cyngor ar gyfer eu cymeradwyo. Fodd bynnag, er bod hyn yn rhan allweddol o rôl y Clerc, yn wreiddiol gwrthododd baratoi cyfrifon a'u cyflwyno i'w harchwilio.

53 Ar 10 Medi 2019, ysgrifennodd fy nhîm archwilio at y Clerc gan egluro, oherwydd yr achosion o oedi a'i fod yn gwrthod darparu'r cyfrifon i'w harchwilio gan dîm archwilio Grant Thornton sy'n cynnal yr archwiliad fel arfer, bod Grant Thornton wedi atgyfeirio'r Cyngor ataf fi. Penderfynais y byddai'r archwiliad yn cael ei gwblhau gan staff Swyddfa Archwilio Cymru felly. Roedd llythyr fy nhîm archwilio'n egluro wrth y Clerc ei bod yn ofynnol iddo fod yn bresennol mewn cyfarfod i drafod yr archwiliad ynghyd â Chadeirydd y Cyngor[1] a darparu'r cyfrifon a'r dogfennau yr oedd yn ofynnol eu cyflwyno ar gyfer yr archwiliad. Roedd y llythyr hefyd yn egluro wrth y Clerc ei bod yn drosedd peidio â chydymffurfio â'r cais am wybodaeth a pheidio â bod yn bresennol mewn cyfarfod i drafod yr archwiliad. Fe'i gwnaed yn glir i'r Clerc hefyd y byddai costau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo.

54 Fe ymatebodd y Clerc i'r llythyr hwn ar 15 Medi 2019 gan nodi ei farn ei fod yn anrhifog ac nad oedd ganddo'r gallu i baratoi'r cyfrifon.

55 Nododd y Clerc hefyd ei fod wedi gwirfoddoli i gymryd cofnodion cyfarfodydd y Cyngor pan fu farw ei ragflaenydd ond nad oedd yn sylweddoli y byddai hyn yn arwain at ei wneud yn Swyddog Cyllid Cyfrifol. Meddyliodd wedyn y byddai defnyddio'i gyfrifydd ef ei hun yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Pan gafodd ei hysbysu gan Grant Thornton (a oedd yn gweithio dros ac ar ran yr Archwilydd Cyffredinol) nad oedd yn briodol defnyddio'r un cyfrifydd i baratoi'r datganiadau ariannol a darparu archwiliad mewnol, penderfynodd y byddai'n syml yn peidio â pharatoi cyfrifon.

56 Pa un a yw'n cael cyflog cymharol fach ai peidio, rwy'n cydymdeimlo ag unrhyw un sy'n cael bod ei gynnig neu ei chynnig o gymorth yn cael ei gymryd i fod yn fwy helaeth nag a fwriadwyd ac sydd felly'n wynebu tasgau sy'n anos na'r disgwyl. Yn fy marn i, fodd bynnag, yn hytrach na phenderfynu y bydd agweddau allweddol a statudol ar y rôl yn syml yn cael eu hepgor, byddai'n fwy priodol codi'r mater ynglŷn

[1] Y Cynghorydd Arwel Nicholas.

â chael rôl y Swyddog Cyllid Cyfrifol yn feichus gyda'r Cyngor, er mwyn i'r Cyngor allu gwneud trefniadau eraill priodol.

57 Dynododd y Clerc hefyd y byddai'n anodd iawn i'r Cyngor ddod o hyd i rywun dwyieithog a oedd yn fodlon cyflawni rôl y Clerc ac yn meddu ar ddigon o sgiliau rhifiadol i weithredu fel y Swyddog Cyllid Cyfrifol. Dywedodd, gan fod defnyddio'r Gymraeg yn ofyniad mwy taer yn ei farn ef, y dylid rhoi blaenoriaeth i ddarparu cofnodion dwyieithog dros ddarparu cyfrifon. Eto, rwy'n cydnabod bod sicrhau'r sgiliau i ateb yr amryw ofynion ar gynghorau'n her. Nodaf, fodd bynnag, er bod swyddi'r Clerc a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol fel arfer yn cael eu dal gan yr un unigolyn, nad oes rhaid i hynny fod; mae opsiynau pellach ar gael i'r Cyngor. Nid wyf yn derbyn bod darparu cofnodion dwyieithog yn cyfiawnhau esgeuluso cyfrifon. Byddai gwneud hynny nid yn unig yn erbyn y gyfraith ond byddai hefyd yn golygu bod rhaid i drethdalwyr lleol mewn ardaloedd sylweddol Gymraeg eu hiaith (a fydd yn tueddu i fod yn siaradwyr Cymraeg) dderbyn safonau is o ran rheolaeth ariannol ac atebolrwydd.

## Nid yw'r Clerc o'r farn y dylai cyfrifon y Cyngor orfod cael eu harchwilio

58 Yn ogystal â bod y Clerc yn ei ystyried ei hun yn anrhifog, mae wedi datgan ei farn bod y Cyngor yn fach ac nad yw'n gweld pwrpas paratoi cyfrifon i gael eu harchwilio. Mynegodd y Clerc y farn hefyd bod gwybodaeth sy'n ofynnol fel arfer at ddibenion gwirio'n amherthnasol:

59 Ar y gorau, mae'r safbwyntiau hyn yn dynodi diffyg gwerthfawrogiad brawychus o'r angen i fod yn atebol am ddefnyddio arian cyhoeddus. Beth bynnag, gan bod archwilio cyfrifon y Cyngor yn ofyniad statudol, nid yw safbwyntiau'r Clerc yn cyfiawnhau peidio â chydymffurfio.

## Fe greodd y Clerc rwystr parhaus i'r broses archwilio gan arwain at ysgwyddo costau archwilio ychwanegol sylweddol

60 Fel a nodir uchod, mae archwilio cyfrifon yn ofyniad statudol ac mae cydweithrediad cynghorau â'r tîm archwilio'n helpu i sicrhau bod y broses archwilio'n cael ei chwblhau mor effeithlon â phosibl. Mae fy ffioedd archwilio'n seiliedig ar daliadau wrth yr awr. Felly, mae cydweithredu gyda'r tîm archwilio'n golygu y bydd baich y ffi archwilio i'r Cyngor yn cael ei gadw mor fach â phosibl.

61 Ers mis Medi 2019, nid yw'r Clerc wedi ymgysylltu'n adeiladol â'r broses archwilio. Fel a nodir uchod, yn wreiddiol fe wrthododd baratoi cyfrifon ac, wedyn, er ei fod wedi cael eglurhad pam y gofynnwyd am wybodaeth benodol ar gyfer yr archwiliad, mae wedi gwrthod darparu'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i gynnal yr archwiliad.

62 Fel y mae staff Archwilio Cymru wedi egluro wrth y Clerc, mae gwrthod darparu gwybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer archwiliad yn nhyb yr Archwilydd Cyffredinol a hynny heb esgus rhesymol yn drosedd dan adran 53 o Ddeddf 2004.

63 Serch hynny, mae'r Clerc i'w weld fel pe bai'n diystyru difrifoldeb ei wrthodiad i ddarparu gwybodaeth. Ers mis Medi 2019, mae wedi ysgrifennu nifer o negeseuon e-bost a llythyrau maith, yn hytrach na darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Mae ei fethiant i gydweithredu wedi golygu nad oeddwn yn gallu cwblhau'r gwaith a oedd yn ofynnol i gwblhau fy archwiliadau ar gyfer 2017-18 a 2018-19 tan fis Mai 2021.

64 Gan bod y tîm archwilio wedi gorfod treulio amser yn ailadrodd ac yn egluro ceisiadau ac yn darllen cyfathrebiadau'r Clerc a oedd yn faith ond yn ddi-fudd gan mwyaf, mae cost yr archwiliad wedi cynyddu ymhell y tu hwnt i'r hyn fyddai fel arfer. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'r ffi archwilio flynyddol ar gyfer cyngor o faint tebyg i Lanpumsaint rhwng £200 a £400. Ar gyfer 2017-18 a 2018-19 felly, byddwn fel arfer yn disgwyl i gyfanswm y ffi archwilio fod yn ddim mwy nag £800. Hyd at 31 Mai 2021, roedd y ffi archwilio a oedd wedi cronni'n £3,456. Mae hyn yn cynrychioli cost ymdrin â'r rhwystr i'r archwiliad a achoswyd gan Mr Jones, a fydd yn cael ei hysgwyddo gan y gymuned yn y pen draw. Dylid nodi hefyd bod y rhwystr a achoswyd gan Mr Jones yn golygu nad oeddem yn gallu gwneud cynnydd sylweddol gyda'r archwiliad tan yn gynnar yn 2021 ac er mwyn gwneud hynny bu'n rhaid i ni gael gwybodaeth ychwanegol gan fanc y Cyngor.

65 Yn ogystal â methu â darparu gwybodaeth angenrheidiol, trwy gydol y broses archwilio, mae'r Clerc wedi defnyddio iaith ac wedi arddangos ymddygiad sy'n dramgwyddus yn fy marn i. Gall ymddygiad o'r fath greu risgiau i'r Cyngor o ran sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau os yw'n lleihau parodrwydd y cyhoedd neu gyrff cyhoeddus eraill i ymgysylltu â'r Cyngor.

# Mae'r Cyngor yn methu â bodloni'r safonau sylfaenol llywodraethu a thryloywder sy'n ofynnol gan gynghorau cymuned

66 Yn ogystal â'r methiant i baratoi cyfrifon blynyddol, mae'r Cyngor yn methu â chyflawni ei gyfrifoldebau am dryloywder o ran cyhoeddi deunyddiau eraill.

## Er bod gan y Cyngor wefan, nid yw'n cyhoeddi'r holl ddogfennau y mae'n ofynnol iddo'u cyhoeddi'n electronig

67 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor lleol drefnu bod eu manylion cyswllt a manylion eu haelodau, a chofnodion eu trafodion ar gael yn electronig ar eu gwefan. Mae Deddf 2013 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi eu cofrestr o

fuddiannau'r aelodau, hysbysiadau cyhoeddus a chyfrifon archwiliedig yn electronig. Mae'r gofynion hyn yn Neddf 2013 wedi'u bwriadu i wella atebolrwydd cynghorau lleol i'w hetholaethau.

68 Canfu fy archwiliad, er ei fod wedi sefydlu gwefan, o ran y sefyllfa ar 31 Mai 2021, nad oedd y Cyngor wedi cyhoeddi'r holl wybodaeth y mae'n ofynnol iddo'i chyhoeddi'n electronig.

69 Yng nghofnodion y cyfarfod Eithriadol a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2019, mae'r Cyngor yn nodi:

'Gan bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob deufis bellach, mae'r dudalen yn anghyflawn o ddim mwy na dwy Ddogfen Cofnodion.'

70 Fodd bynnag, mae'r datganiad hwn yn anghywir. Er bod y Cyngor yn cyhoeddi rhai cofnodion ar ei wefan, nid yw'r rhain yn gyfoes. O ran y sefyllfa ar 1 Medi 2020, cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Ebrill 2019 yw'r cofnodion diweddaraf a gyhoeddwyd. Er y cyfeirir at gofnodion eraill mewn deunydd ar y wefan, nid oeddent yn hygyrch. Cafodd cofnodion ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar 1 Mai, 3 Gorffennaf, 4 Medi a 6 Tachwedd 2019 ac ar gyfer 8 Ionawr 2020 eu cyhoeddi ar ôl 1 Medi 2020.

71 Wrth gyflawni eu dyletswyddau, mae angen i aelodau benderfynu a oes ganddynt fuddiant personol ac, os felly, a oes angen iddynt ei ddatgelu. Lle mae gan aelodau fuddiant y dylid ei ddatgelu, dylai'r ffaith bod buddiant a natur y buddiant hwnnw gael eu datgelu mewn cyfarfodydd, wrth wneud sylwadau ysgrifenedig, gan gynnwys negeseuon e-bost, ac wrth wneud sylwadau ar lafar. Mae'r datgeliad hwn yn ofynnol hyd yn oed os yw'r buddiant wedi'i gofnodi ar gofrestr buddiannau'r Cyngor.

72 Mae Adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gadw cofrestr o fuddiannau a ddatgelwyd a chyhoeddi'r gofrestr honno'n electronig.

73 Mae cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2019 yn nodi:

'Cyfeiriwyd y Cynghorwyr at bob Dogfen Cofnodion ar y wefan gan eu bod i gyd yn cynnwys 'Datganiad o Fuddiant'.'

74 Nid yw'r Cyngor wedi darparu digon o dystiolaeth i ddangos ei fod wedi cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'i fod yn cadw cofrestr o fuddiannau. Er y gall aelodau fod yn ymwybodol o'r angen i ddatgelu buddiannau mewn cyfarfodydd, nid ydynt wedi cydnabod bod rhaid i'r Cyngor gadw a chyhoeddi cofrestr hefyd. Ar ben hynny, mae eu dibyniaeth ar y cofnodion i gofnodi buddiannau'n ddiffygiol, yn enwedig, fel a nodir uchod, gan nad yw'r Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i gyhoeddi cofnodion mewn modd amserol.

# Mae cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2017-18 a 2018-19 wedi'u camddatgan ac nid yw ei Ddatganiadau Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu'r trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol sydd yn eu lle yn y Cyngor ac, o ganlyniad, rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio amodol

75 Rwyf bellach wedi cwblhau fy ngwaith archwilio ar ffurflenni blynyddol 2017-18 a 2018-19. Mae fy archwiliad wedi canfod gwallau yn y datganiadau cyfrifyddu a chamliwiadau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## Mae'r datganiadau cyfrifyddu ar gyfer 2017-18 a 2018-19 wedi'u camddatgan

76 Dylai datganiad cyfrifyddu blynyddol y Cyngor a nodir yn ei Ffurflen Flynyddol adlewyrchu'r trafodion a gofnodwyd yn llyfr arian y Cyngor. Roedd y cofnodion ariannol a ddarparwyd gan y Cyngor yn annigonol i baratoi datganiad cyfrifon ac nid oeddent yn ategu'r cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio ar gyfer blynyddoedd ariannol 2017-18 a 2018-19. Yn arbennig, ni wnaeth y Cyngor ddarparu:

- llyfr arian wedi'i gynnal yn briodol;
- cysoniad rhwng cofnodion y Cyngor a'r datganiadau cyfrifyddu a gyflwynwyd i'w harchwilio; na
- dogfennaeth ategol ar gyfer taliadau unigol, e.e. anfonebau, ar gyfer blynyddoedd ariannol 2017-18 a 2018-19.

77 Felly, roedd angen i mi gael gwybodaeth ychwanegol, gan gynnwys copïau o sieciau a dalwyd, gan fanc y Cyngor a pharatoi llyfr arian. Canfu fy nadansoddiad o'r llyfr arian hwn fod cyfrifon y Cyngor fel y'u cyflwynwyd i'w harchwilio wedi'u camddatgan ac na chawsant eu paratoi yn unol ag arferion priodol.

78 Mae'n bwysig nodi, ar wahân i natur anghyflawn y cofnodion a ddarparwyd gan y Cyngor, fy mod wedi gwneud digon o waith archwilio i'm hargyhoeddi fy hun nad wyf wedi canfod unrhyw gamddefnydd o gyllid y Cyngor.

79 Mae **Arddangosyn 2** yn nodi cyfrifon blynyddol y Cyngor ar sail arferion priodol.

**Arddangosyn 2: Cyfrifon Cyngor Cymuned Llanpumsaint wedi'u hailddatgan**

Yn seiliedig ar fy nadansoddiad, dylai cyfrifon y Cyngor gael eu hailddatgan fel a nodir isod i sicrhau eu bod wedi'u paratoi yn unol ag arferion priodol.

| | 2016-17 (Ffurflen flynyddol 2017-18) | 2017-18 (Ffurflen flynyddol 2018-19) | 2018-19 (Ffurflen flynyddol 2019-20) | 2019-20[2] |
|---|---|---|---|---|
| 1. Balansau a ddygwyd ymlaen | £3,120 | £3,300 | £5,649 | £3,759 |
| 2. Incwm o drethiant lleol | £7,018 | £7,074 | £7,204 | £8,067 |
| 3. Derbyniadau eraill | £644 | £100 | £0 | £118 |
| 4. Costau staff | £1,545 | £1,306 | £914 | £522 |
| 5. Ad-daliadau ar fenthyciadau | £0 | £0 | £0 | £0 |
| 6. Taliadau eraill | £5,937 | £3,519 | £8,180 | £1,909 |
| 7. Balansau a gariwyd ymlaen | £3,300 | £5,649 | £3,759 | £9,513 |
| 8. Dyledwyr | £0 | £0 | £0 | £0 |
| 9. Arian parod a buddsoddiadau | £3,300 | £5,649 | £3,759 | £9,513 |
| 10. Credydwyr | £0 | £0 | £0 | £0 |
| 11. Balansau a gariwyd ymlaen | £3,300 | £5,649 | £3,759 | £9,513 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

80 Rwyf wedi darparu copi ar gyfer y Cyngor o'r llyfr arian a baratowyd at ddibenion archwilio.

## Nid yw Datganiadau Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2017-18 a 2018-19 yn adlewyrchu'r trefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu a oedd yn eu lle ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyn

81 Mae Rheoliad 5 yn Rheoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal adolygiad o leiaf unwaith y flwyddyn o effeithiolrwydd ei system rheolaeth fewnol. Yn dilyn yr adolygiad hwn, y mae'n rhaid iddo gael ei ystyried gan y Cyngor llawn, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo datganiad ar reolaeth fewnol a baratowyd yn unol ag arferion priodol.

[2] Rwyf wedi darparu ffigyrau ar gyfer 2019-20 i gynorthwyo'r Cyngor i gwblhau ei gyfrifon ar gyfer 2019-20 a 2020-21

82 Yn ychwanegol at y datganiadau cyfrifyddu, mae'r ffurflen flynyddol yn ymgorffori Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru'n cadarnhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ateb y gofyniad i gynhyrchu datganiad ar reolaeth fewnol.

83 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud datganiad ffurfiol mewn perthynas â'r trefniadau sydd ganddo ar gyfer llywodraethu a rheolaeth ariannol.

84 Ar gyfer y ddwy flynedd archwilio a gaiff eu hystyried yn yr adroddiad hwn, sef 2017-18 a 2018-19, mae'r Cyngor wedi cwblhau'r ffurflenni fel uchod ar y sail ei fod yn cydymffurfio â'r disgwyliadau a nodir mewn deddfwriaeth a chanllawiau a gyhoeddwyd. Caiff ymatebion y Cyngor eu nodi yn **Arddangosyn 3** isod. Lle gwnaed haeriad cadarnhaol, nid yw wedi amodi ei ymatebion na darparu esboniadau ar feysydd lle mae naill ai'n ddiffygiol neu'n gweithio i sicrhau gwelliannau.

85 Mae fy ngwaith archwilio wedi canfod bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn anghyson â'r haeriadau cadarnhaol y mae wedi'u gwneud yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2017-18 a 2018-19.

86 Felly, mae'r datgeliadau llywodraethu a wnaed gan y Cyngor, yn fy marn i, yn anghyson â'r sefyllfa a adlewyrchir yn ei ddogfennaeth.

87 Yr hyn sy'n glir i mi yw nad yw'r Cyngor wedi cymryd digon o gamau i'w argyhoeddi ei hun bod ei drefniadau llywodraethu'n effeithiol ac wedi'u datgelu'n deg. Nid yw aelodau'r Cyngor wedi cydnabod materion yn ddigonol na gweithredu'n ddigonol ar faterion mewn perthynas â digonolrwydd eu trefniadau llywodraethu.

**Arddangosyn 3: Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Mae'r Cyngor wedi gwneud haeriadau cadarnhaol yn ei ddatganiadau llywodraethu blynyddol ar gyfer 2017-18 a 2018-19 nad ydynt yn cael eu hategu gan dystiolaeth a oedd ar gael i'w harchwilio

| Haeriad | Ymateb y Cyngor | Asesiad archwilio | Canfyddiad archwilio |
|---|---|---|---|
| **1.** Rydym wedi sefydlu trefniadau ar gyfer:<br>• rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a<br>• pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu. | Do | Naddo | Fel a nodir yng ngweddill yr adroddiad hwn, nid yw'r Cyngor wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol na pharatoi a chymeradwyo cyfrifon yn unol â'r Rheoliadau. Mae fy adolygiad i o gofnodion y Cyngor yn dynodi mai ychydig o graffu, os o gwbl, sydd ar faterion ariannol y Cyngor gan aelodau. Mae hyn yn cynnwys methiant parhaus i ystyried ei ofynion o ran y gyllideb cyn pennu ei braesept. |
| **2.** Rydym wedi cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredigaeth, ac adolygu ei heffeithiolrwydd. | Do | Naddo | Nid yw fy archwiliad wedi canfod unrhyw dystiolaeth o gwbl bod y Cyngor wedi adolygu ei system rheolaeth fewnol. |
| **3.** Rydym wedi cymryd pob cam rhesymol i'n sicrhau ein hunain nad oes unrhyw faterion diffyg cydymffurfio gwirioneddol neu bosibl â chyfreithiau, rheoliadau a chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Awdurdod i gynnal ei fusnes neu ar ei gyllid. | Do | Naddo | Nid yw'r Cyngor yn gweithredu TWE fel y mae'n ofynnol iddo'i wneud dan Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003. Mae methu â gweithredu TWE yn gadael y Cyngor yn agored i'r risg y bydd dirwyon a/neu daliadau cosb yn cael eu gosod gan Cyllid a Thollau EM. |

| Haeriad | | Ymateb y Cyngor | Asesiad archwilio | Canfyddiad archwilio |
|---|---|---|---|---|
| **4.** | Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. | Do | Naddo | Ni wnaeth y Cyngor baratoi cyfrifon i'r cyhoedd edrych arnynt ac nid yw wedi gwneud unrhyw drefniadau i'r cyhoedd edrych ar y cyfrifon fel sy'n ofynnol yn ôl adran 30 Deddf 2004 a Rheoliadau 16, 17 a 22 yn Rheoliadau 2014. |
| **5.** | Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo'n ofynnol. | Do | Naddo | Ni chanfu fy archwiliad o'r cofnodion cyfyngedig a ddarparwyd gan y Clerc a chofnodion y Cyngor unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor wedi sefydlu trefniadau i reoli risg fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliad 5 yn Rheoliadau 2014. |
| **6.** | Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli trwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol. | Do | Naddo | Er bod yr adroddiad archwilio mewnol ar gefn y ffurflenni blynyddol ar gyfer 2017-18 a 2018-19 wedi cael eu marcio i ddynodi bod archwiliad mewnol wedi cael ei gynnal, ni chafodd archwiliad mewnol ei gynnal. |
| **7.** | Rydym wedi ystyried a yw unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, sy'n digwydd naill ai yn ystod neu ar ôl diwedd y flwyddyn, yn cael effaith ariannol ar yr Awdurdod a, lle y bo'n briodol, rydym wedi'u cynnwys ar y datganiadau cyfrifyddu. | Do | Ddim yn berthnasol | Ni chanfu fy archwiliad unrhyw faterion a oedd wedi'u cofnodi yng nghofnodion y Cyngor. Gan bod y cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail derbyniadau a thaliadau, ni fyddai unrhyw rwymedigaethau'n cael eu cofnodi yn y cyfrifon nes eu bod yn cael eu talu. |
| **8.** | Rydym wedi cymryd camau gweithredu priodol ar bob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol. | Do | Naddo | Ni chymerodd y Cyngor gamau gweithredu mewn perthynas â materion a godwyd yn adroddiadau archwilio allanol 2015-16 a 2016-17 mewn perthynas â gwallau yn y cyfrifon a chymeradwyo'r cyfrifon yn hwyr. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.